



Tsimpansi

Gallaf weithio gydag offer, dysgu geiriau, rhannu bwyd a chwarae gyda gwrthrychau.



Hwfer robotig

Rydw i'n symud o amgylch ystafell gan osgoi gwrthrychau. Rydw i'n dal i fynd nes bod ystafell yn lân neu nes fy mod i'n rhedeg allan o egni. Gallaf ddod o hyd i fy man ailwefru.



Craig anwes

Rydw i'n garreg gyda nodweddion cyfeillgar wedi'u peintio arnaf.



Hangman

Caf fy nefnyddio i weithio allan gair penodol gan ddefnyddio proses dileu llythrennau.



Adnabod wyneb

Gallaf adnabod neu wirio pwy yw person gan ddefnyddio ei wyneb. Rydw i'n casglu, yn dadansoddi ac yn cymharu patrymau ar sail manylion wyneb y person.



Watsch glyfar

Gallaf adnabod pa weithgaredd rydych chi'n ei wneud, rhoi data iechyd i chi a monitro eich cwsg.



Parot

Gallaf ddynwared pobl. Gallaf ddod o hyd i fy ffordd adref ac at fywyd a chael perthynas gymdeithasol â pharotiaid eraill.



Babi bach

Alla i ddim cerdded, siarad na bwydo fy hun. Ond byddaf yn dysgu gwneud y pethau hyn cyn bo hir.



Cyfrifiadur sy'n chwarae gwyddbwyll

Gallaf chwarae gwyddbwyll ar lefel meistr gwyddbwyll neu uwch. Gallaf weithio allan symudiadau da a symudiadau gwael.



Colomen ddychwel

Gallaf ddod o hyd i fy ffordd adref. Rydw i wedi cael fy nefnyddio ar gyfer cyfathrebu o bell a gallaf ddilyn traffyrdd ac afonydd.



Prosesydd bwyd

Gallaf gymysgu bwyd i wneud cawl neu smwddis. Mae gen i osodiadau cyflymder gwahanol.



Cerbyd awtonomaidd

Mae gen i nifer o synwryddion sy'n fy helpu i ddeall fy amgylchedd ac i gynllunio llwybrau. Mae'r synwryddion hyn yn cynhyrchu swm enfawr o ddata y byddaf yn dysgu ohono.